


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Meintioli Effaith Economaidd Busnes Cymru

## C R Y N O D E B

Busnes Cymru | Business Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

## Cyflwyniad

Mae Busnes Cymru yn wasanaeth[1] wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r UE ac yn darparu cymorth a chefnogaeth ddi-duedd, annibynnol a chwbl ddwyieithog, i bobl sy'n dechrau, rhedeg a datblygu busnes yng Nghymru. Yn brif adnodd wrth gyflawni'r amcanion strategol yn Llewyrch i Bawb: Y Cynllun Gweithredu Economaidd, caiff Busnes Cymru ei ddarparu trwy ganolfannau rhanbarthol ledled Cymru ac mae'n cynnig cymysgedd o gymorth ar-lein a wyneb yn wyneb, yn ogystal â gweithdai hyfforddi a chyngor unigol.

Yn ystod 2019, cafodd Ysgol Fusnes Caerdydd ei chomisiynu i roi asesiad annibynnol o'r canlyniadau economaidd sy'n gysylltiedig â Busnes Cymru. Mae'r adroddiad hwn, yn cynnig diweddariad pellach o'r dadansoddiad gwreiddiol a gynhaliwyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd yn 2019 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2015-2021. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'u hadroddiad a'r canfyddiadau.

## Methodoleg

Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio gwybodaeth fonitro wedi'i chasglu gan Lywodraeth Cymru am y busnesau sy'n gysylltiedig ac sy'n cael eu cefnogi gan Busnes Cymru. Mae data wedi'i archwilio gan y tîm ymchwil wedi cynnwys swyddi sy'n cael eu creu a'u diogelu, gwerth buddsoddi mewn mentrau, trosiant a ragwelir mewn cwmnïau sy'n cael eu cynorthwyo a gweithgarwch allforio.

Roedd y dadansoddiad yn cynnwys cyfnod o chwech mlynnedd (2015-2021) ac yn edrych ar effaith y ddwy haen benodol hon o gymorth. Yn gyntaf, mae gwasanaethau craidd a twf Busnes Cymru sy'n rhoi cymorth i unigolion sy'n ystyried dechrau menter newydd, a chwmnïau sydd wedi'u sefydlu sydd ag uchelgais o ran twf.

Yn ail, mae Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru, gwasanaeth wedi'i dargedu sydd wedi'i anelu at fusnesau sydd â'r awch a'r potensial i ddatblygu trosiant, creu swyddi ac allforio yn gyflym.

Mae'r astudiaeth yn cynnwys:

- Asesiad ychwanegedd yn seiliedig ar berfformio amcangyfrifon gros i net ar ganlyniadau economaidd gan ystyried effeithiau dadleoli, diffrwythedd, datgelu, amnewid a lluoswyr.
- Dadansoddiad o sampl cyfatebol o fusnesau sy'n cael eu cefnogi neu heb eu cefnogi i nodi cyfraddau goroesi a chyfraddau y sgôr credyd fel dangosydd procsi ar gyfer cydnerthedd busnes.
- Dadansoddiad o'r amodau presennol macro-economaidd yn ystod y cyfnod 2015-2021 a sut y gallai'r rhain gael effaith y broses o gyflawni gwasanaethau Busnes Cymru.

Nid oedd yr astudiaeth yn cynnwys unrhyw ymchwil sylfaenol gyda busnesau a gefnogwyd.

## Amodau Economaidd

Mae'r ymyriadau a reolir gan Busnes Cymru wedi digwydd yn ystod cyfnod o amodau economaidd heriol yn ystod rhan olaf y cyfnod ymyrryd yn 2017-21, ond yn enwedig yn ystod cyfnod Covid-19. Mae'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer y cyfnod ymyrryd wedi bod yn arafu twf, ac yn achos Cymru pwysau gwirioneddol ar y sector gweithgynhyrchu.

Yn ogystal i hyn, fe ddigwyddodd cyfnod y rhaglen dros gyfnod o bryderon cynyddol ynghylch trosglwyddo Brexit.

1 Wedi'u hariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

## Effaith Gwasanaeth Craidd a Thwf Busnes Cymru

Gwelodd yr astudiaeth:

Roedd GWARIANT tan Mai 2021 ar y gwasanaeth craidd a thwf yn **£37.1 miliwn** gyda busnesau wedi'u cefnogi wedi creu **15,447** o swyddi newydd rhyngddynt.

Mae busnesau craidd a busnesau gafodd gymorth i ddatblygu wedi creu cyfanswm o **£92 miliwn** o fuddsoddiad sy'n gysylltiedig â throsiant cyfun o **£7.76 biliwn**.

Gallai'r GWAITH YCHWANEGOL sydd wedi'i greu/gweithgarwch gan fusnesau craidd a'r rhai gafodd gymorth i ddatblygu ei gysylltu gydag amcangyfrif o **£380 miliwn** o Werth Ychwanegol Gros (GYG) y flwyddyn.

Amcangyfrifir fod y gost fesul swydd sydd wedi'i chreu gan fusnesau craidd a busnesau wedi'u cefnogi i ddatblygu yn **£2,564**.

Unwaith y bydd lwfans ar gyfer ychwanegedd, bydd y gost fesul swydd net a grewyd yn **£5,129**.

Ar gyfer pob **£1** sydd wedi'i fuddsoddi yn y gwasanaeth craidd a thwf, gellid cysylltu hwn ag oddeutu **£10** o GYG y flwyddyn.

Mae'r gyfradd oroesi bedair mlynedd ar gyfer busnesau craidd a'r rhai gafodd gymorth i ddatblygu yn **67%** o gymharu â **33%** ar gyfer sampl cyfatebol o fusnesau sydd heb eu cynorthwyo.

Roedd busnesau craidd a'r rhai gafodd gymorth i ddatblygu yn fwy tebygol o fod yn y categori risg credyd sefydlog a diogel na'u cymheiriaid oedd heb eu cynorthwyo yn y grŵp ehangach o fusnesau o Gymru.


## Effaith Rhaglen Cyflymu Twf (AGP) Busnes Cymru

Gwelodd yr astudiaeth bod:




GWARIANT hyd at Mehefin 2021 ar AGP yn **£22.7 miliwn**, gyda busnesau wedi'u cynorthwyo wedi creu **9,895** o swyddi newydd rhyngddynt.

Mae busnesau AGP sydd wedi'u cefnogi wedi cynhyrchu cyfanswm o **£377 miliwn** o fuddsoddiad sydd wedi'i gysylltu â throsiant cyfun o **£5.99 biliwn**.





Gellid CYSYLLTU'R gwaith/gweithgarwch ychwanegol a grëwyd gan fusnesau AGP a gynorthwywyd gydag amcangyfrif o **£410 miliwn** GYG (Gwerth Ychwanegol Gros) y flwyddyn.




Amcangyfrifwyd bod y gost fesul swydd a grewyd gan fusensau a gynorthwy-wyd gan AGP yn **£2,329**.

Unwaith bod lwfans am ychwanegedd wedi'i ystyried, y gost fesul swydd net a grewyd yw **£4,261**.



Ar gyfer pob **£1** a fuddsoddwyd mewn GYG, gellid cysylltu hyn gydag oddeutu **£18** o godiad mewn GYG y flwyddyn.



Mae'r gyfradd oroesi o bedair blynedd ar gyfer busnesau a gynorthwywyd gan AGP yn **77%** o gymharu â **33%** ar gyfer sampl cyfatebol o fusnesau sydd heb eu cynorthwyo.

Roedd busnesau a gynorthwywyd gan AGP yn fwy tebygol o fod o fewn y categoririsg credyd sefydlog a diogel na'u cymheiriaid sydd heb eu cynorthwyo o fewn y boblogaeth ehangach o fusnesau Cymru.



WG44020 / © Hawlfraint y Goron 2021